

Byw gyda ni

Yr hyn sydd angen arnoch chi ei wybod

Rydym wrth ein bodd eich bod yn mynd i fyw gyda ni. Mae ychydig o bethau y bydd angen arnoch chi eu gwybod am fyw gyda ni. Os hoffech chi dderbyn gwybodaeth bellach dylech chi gyfeirio at eich cytundeb tenantiaeth, siarad â'ch Swyddog Tai neu ein ffonio ni.

EICH CYTUNDEB TENANTIAETH

I DDECHRAU, TENANTIAETH GYCHWYNNOL FYDD GENNYCH CHI

Mae eich cytundeb tenantiaeth yn gytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a Chartrefi Cymoedd Merthyr. Mae'n nodi eich hawliau a'ch cyfrifoldebau fel un o'n tenantiaid.

Mae gan Gartrefi Cymoedd Merthyr ddwy brif fath o denantiaeth sef Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr (cyfeirir ati'n aml fel tenantiaeth gychwynnol) a Thenantiaeth Sicr.

Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr:

Bydd pob tenant yn cychwyn ar y denantiaeth hon ac, fel arfer, mae'n para am flwyddyn.

Caiff y tenantiaethau hyn eu rhoi er mwyn i denantiaid newydd ddangos bod modd iddynt ddiwallu telerau'r cytundeb tenantiaeth. Os ydych yn llwyddo i wneud hyn caiff y denantiaeth ei throï'n denantiaeth sicr yn awtomatig ar ôl 12 mis i ddyddiad cychwyn y denantiaeth.

Nid oes gan denantiaid sydd â Thenantiaeth Fyrddaliol Sicr yr un hawliau â thenantiaid sydd â Thenantiaeth Sicr. Nid oes modd iddynt dderbyn lletywyr, gwneud gwelliannau na chyfnwid eu cartrefi.

Tenantiaeth Sicr:

Fel tenant sydd â thenantiaeth sicr mae gennych hawl gyfreithiol i aros yn eich cartref ar yr amod eich bod yn cadw at delerau'r denantiaeth.

GOSOD EICH HAWLIAU A'CH CYFRIFOLDEBAU

EICH HAWLIAU

Fel tenant mae gennych chi hawliau penodol sydd wedi'u hesbonio'n llawn yn y cytundeb tenantiaeth. Cyn i chi weithredu'r hawliau hyn dylech chi wirio a oes angen gofyn am ein caniatâd ai peidio.

- Hawl i feddiannu.
- Hawl i dderbyn lletywyr neu i isosod eich cartref (tenantiaid sydd â thenantiaeth sicr yn unig).
- Hawl i wneud gwelliannau gan gynnwys yr hawl i dderbyn iawndal (tenantiaid sydd â thenantiaeth sicr yn unig).
- Hawl i atgyweiriadau.
- Hawl i ymgynghoriad.
- Hawl i wybodaeth.
- Hawl i gyfnewid gan gynnwys cyfnewid cydfuddiannol (tenantiaid sydd â thenantiaeth sicr yn unig).
- Hawl i olyniaeth.
- Hawl i brynu eich cartref (tenantiaid sydd â thenantiaeth sicr yn unig). Nodwch, mae'r hawl i perchyn yn dyweddi yn ngymru ar y 26ed o ionawr 2019.

EICH CYFRIFOLDEBAU

Mae nifer o amodau tenantiaeth y mae'n rhaid i bob tenant gydymffurfio â nhw ac maent wedi'u hamlinellu yn y cytundeb tenantiaeth.

- Talu eich rhent ar amser.
- Adrodd atgyweiriadau'n brydlon.
- Defnyddio'r eiddo fel eich unig gartref a'ch prif gartref.
- Caniatáu mynediad i ni gynnal atgyweiriadau, gan gynnwys arolygon yn ôl yr angen.
- Cynnal a chadw eich cartref a'ch gardd.
- Parcio mewn ffordd gyfrifol.
- Defnyddio ardaloedd cymunol.
- Perchennog anifail anwes cyfrifol. Mae cyfyngiadau os ydych chi'n byw mewn blociau fflatiau uchel neu isel.

Mewn achosion lle y caiff amodau'r denantiaeth eu torri byddwn yn ceisio gweithio gyda chi i ddatrys unrhyw broblemau ond byddwn yn ystyried meddiannu cartrefi tenantiaid os bydd pob ymdrech arall yn methu.

Y WYBODAETH SYLFAENOL – YR HYN SYDD ANGEN ARNOCH CHI EI WYBOD



ADRODD ATGYWEIRIADAU

Gallwch adrodd atgyweiriadau naill ai dros y ffôn, ar-lein neu mewn person.

I adrodd atgyweiriadau brys dylech chi ein ffonio ni, peidiwch â chyflwyno adroddiad drwy'r wefan. Gallwch adrodd atgyweiriadau brys ar unrhyw adeg yn ystod y dydd, dros y penwythnos ac ar wyliau'r banc.

Darllenwch ein llyfryn Atgyweiriadau sy'n rhoi manylion pellach am y mathau o atgyweiriadau ac amserlenni.



TALU EICH RHENT

Mae eich rhent yn helpu i dalu am y gwasanaethau rydym yn eu darparu i chi ac i'r holl de-nantiaid. Felly, mae'n bwysig iawn bod pawb yn talu eu rhent.

FFYRDD O DALU:

Debyd Uniongyrchol: Mae talu trwy Ddebyd Uniongyrchol yn hawdd iawn i'w wneud. Gallwch ei drefnu dros y ffôn gyda ni neu lenwi'r ffurflen Debyd Uniongyrchol. Os oes angen cymorth arnoch chi i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â ni ar 0800 085 7843 neu galwch heibio i'r swyddfa.

Ar-lein: www.mvhomes.org.uk

Ffôn: 0800 085 7843 / 01685 727772

Pay Point / Payzone: Ar gael mewn llawer o siopau lleol – edrychwch am yr arwydd.

Cofiwch fynd â'ch cerdyn sweipio gyda chi.

Swyddfeydd Post: Gallwch dalu trwy arian parod, cerdyn neu siec ond cofiwch fynd â'ch cerdyn sweipio gyda chi.

Os ydych chi'n profi anhawster wrth dalu eich rhent ar unrhyw adeg, cysylltwch â ni. Mae nifer o ffyrdd y gallwn ni eich helpu chi.



Y CARTREF

Mae'n rhaid i chi gadw y tu fewn i'ch cartref yn lân ac mewn cyflwr da gan ei addurno yn ôl yr angen.

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r gosodiadau a ddarperir mewn ffordd gyfrifol ac mae'n rhaid i chi awyru eich cartref.



YSWIRIANT CYNNWYS Y CARTREF

Ni sy'n yswirio'r adeilad ond nid ydym yn talu am bolisi ar gyfer cynnwys eich cartref. Chi sy'n gyfrifol am hynny.

Rydym yn eich cynghori'n gryf i brynu yswiriant ar gyfer cynnwys eich cartref i dawelu eich meddwl. Gofynnwch i'ch Swyddog Tai am wybodaeth bellach.



ANIFEILIAID ANWES

Anogwn i chi fod yn berchennog anifail anwes cyfrifol felly rydym yn caniatáu i chi gadw anifeiliaid anwes yn y cartrefi ar yr amod nad ydynt yn achosi niwsans i'r cymdogion.

Yn anffodus, nid ydym yn caniatáu i denantiaid mewn blociau fflatiau uchel gadw anifeiliaid anwes ac mae angen i denantiaid mewn blociau fflatiau isel ysgrifennu atom i ofyn am ganiatâd.



YR ARDD

Chi sy'n gyfrifol am gynnal a chadw eich gardd gan sicrhau ei bod yn daclus ac nid oes unrhyw ysbwriel ynddi.

